Swansea University
Prifysgol Abertawe

**Disgrifiad Swydd: Swyddog Prosiect**

| | |
|---|---|
| **Cyfadran/Cyfarwyddiaeth/Maes Gwasanaeth:** | Yr Ysgol Feddygaeth |
| **Teitl y Swydd:** | Datblygwr Meddalwedd |
| **Adran/Pwnc:** | Meddygaeth |
| **Cyflog:** | Gradd 7: £34,132 i £38,249 y flwyddyn, ynghyd â buddion pensiwn USS |
| **Oriau gwaith:** | 35 awr |
| **Nifer y Swyddi:** | 1 |
| **Contract:** | Dyma benodiad am gyfnod penodol tan 31 Mawrth 2027. |
| **Lleoliad:** | Bydd deiliad y swydd hon yn gweithio ar Gampws Parc Singleton |

**Prif Ddiben y Swydd**

Mae SeRP (Secure eResearch Platform) yn set dechnoleg a ddatblygwyd gan y grŵp Gwyddor Data Poblogaethau yn Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe. Mae Prifysgol Abertawe'n gweithio gyda sefydliadau ledled y DU ac yn fyd-eang i hwyluso mynediad at wybodaeth a phrofiad ynghylch y platfform. Mae SeRP yn hwyluso'r gwaith o storio a rhannu setiau data ymchwil yn ddiogel at ddiben cynorthwyo gweithgarwch ymchwil.

Mae'r tîm technegol yn y Grŵp Gwyddor Data Poblogaethau'n datblygu atebion i ategu gweithgarwch ymchwil a gwella'r hygyrchedd i setiau data ymchwil. Cyflawnir hyn drwy archwilio'r cyfleoedd diweddaraf a gynigir gan gynhyrchion ffynhonnell agored a chynhyrchion sydd gan werthwyr, gyda thîm datblygu sy'n canolbwyntio ar ddarparu atebion i ddiwallu anghenion y gymuned ymchwil yn y DU ac yn fyd-eang.

**Cyfrifoldebau**

1. Cyfrifoldeb am ddatblygu systemau TGCh gan ddefnyddio sgiliau caledwedd neu feddalwedd gan gynnwys C#, .net core, Entity Framework, LINQ, MVC, monitro, datblygu isadeiledd, rheoli cronfeydd data.
2. Ymgymryd â gweithgareddau datblygu systemau mewn cytundeb â'r CTO.
3. Llunio gwybodaeth ysgrifenedig ar ffurf dogfennaeth dechnegol ac annhechnegol ar gyfer datblygu Windows, gan gynnwys gweithdrefnau gweithredu safonol, cynllunio dogfennau a chanllawiau defnyddwyr terfynol.
4. Cymryd rhan lawn yng nghyfarfodydd tîm y grŵp Gwybodeg Iechyd a'r tîm TG.
5. Cynorthwyo wrth gynnig cymorth llinell gyntaf ac ail linell pan fo'n ofynnol.
6. Dyletswyddau technegol sy'n ymwneud ag amrywiaeth o systemau Gwybodeg Iechyd a chymwysiadau prosiectau.
7. Gweithio'n rhagweithiol fel rhan o'r tîm technegol sy'n cynnig mewnbwn i gynllunio a chyflwyno gwasanaethau.
8. Creu technegau datrys problemau ar gyfer problemau TG cymhleth.

| | |
|---|---|
| | 9. Rheoli cyflwyniad systemau newydd i ddefnyddwyr a darparu cymorth pan fo angen i systemau newydd a rhai hen.<br>10. Cydymffurfio ag achrediadau diogelu data a gwybodaeth.<br>11. Ymgysylltu a rhyngweithio ag amrywiaeth eang o staff a sefydliadau i rannu a lledaenu arfer gorau.<br>12. Datblygu ei sgiliau TG a'i ddiddordebau.<br>13. Darparu hyfforddiant ar y safle i ddefnyddwyr TGCh a chynnal gweithdai hyfforddiant. |
| **Dyletswyddau cyffredinol** | 1. Cyfrannu'n llawn at bolisïau Galluogi Perfformiad ac Iaith Gymraeg y Brifysgol<br>2. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gweithio a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>3. Arwain wrth wella perfformiad iechyd a diogelwch yn barhaus drwy ddealltwriaeth dda o'r proffil risg a thrwy ddatblygu diwylliant cadarnhaol o ran iechyd a diogelwch.<br>4. Unrhyw ddyletswyddau eraill y gellir eu disgwyl o fewn diffiniad y radd yn unol â chyfarwyddyd Pennaeth y Coleg/Adran neu gynrychiolydd a enwebwyd.<br>5. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol |
| **Gwerthoedd y Gwasanaethau Proffesiynol** | Mae'r holl feysydd Gwasanaethau Proffesiynol ym Mhrifysgol Abertawe yn gweithredu yn ôl cyfres ddiffiniedig o Werthoedd Craidd - Gwerthoedd Gwasanaethau Proffesiynol - a disgwylir i bawb allu dangos ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn o'r adeg gwneud cais am swydd i gyflawni eu rolau o ddydd i ddydd. Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym.<br>Ein Gwerthoedd:<br>**Rydym yn Broffesiynol**<br>Rydym yn ymfalchïo mewn defnyddio ein gwybodaeth, ein sgiliau, ein creadigrwydd, ein huniondeb a'n doethineb i ddarparu gwasanaethau arloesol, effeithiol ac effeithlon ynghyd ag atebion o safon ardderchog.<br><br>**Rydym yn Cydweithio**<br>Rydym yn ymfalchïo mewn amgylchedd gweithio rhagweithiol a chydweithredol o gydraddoldeb, ymddiriedaeth, parch, cydweithio a her, i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid.<br>**Rydym yn Ofalgar**<br>Rydym yn cymryd cyfrifoldeb am wrando ar ein myfyrwyr, ein cydweithwyr, ein partneriaid allanol a'r cyhoedd, eu deall ac ymateb yn hyblyg iddynt, fel bod pob cysylltiad rhyngddynt a ni yn brofiad personol a chadarnhaol. |

| | |
|---|---|
| | Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym. |
| **Datblygwr Meddalwedd** | **<u>Datblygwr Meddalwedd yn SeRP</u>**<br><br>Dyma swydd a fydd yn defnyddio sgiliau sy'n ymwneud â meddalwedd, sy'n wych ar gyfer graddedigion diweddar neu weithwyr TG proffesiynol profiadol. Gan ddefnyddio ei sgiliau, bydd deiliad y swydd yn gweithio ar systemau ymchwil 'Data Mawr'.<br><br>Bydd deiliad y swydd yn gweithio ar amrywiaeth o ddatblygiadau a fydd yn addas i'w sgiliau i gyfrannu at gynnal gwasanaethau technegol ansawdd uchel sy'n sicrhau y caiff gweithrediadau presennol eu rheoli ac y datblygir cyfleoedd datblygu yn y dyfodol ar gyfer y grŵp Gwybodeg Iechyd.<br><br>Bydd deiliad y swydd yn defnyddio ei sgiliau ym maes datblygu TGCh ac yn gweithio'n helaeth gyda systemau technegol presennol a newydd i wella gweithrediad y tîm technegol Gwybodeg Iechyd.<br><br>Bydd deiliad y swydd yn gweithio ar brosiectau ymchwil blaengar yn y DU ac yn rhyngwladol a bydd ganddo'r cyfle i wneud gwaith cyfrifiadura arloesol ym maes Gwyddor Data.<br><br>Bydd deiliad y swydd yn gallu defnyddio ei sgiliau i ddatblygu prosiectau megis cyfrifiadura'r Cwmwl a phensaernïaeth mentrau yn ogystal â gweithio mewn amgylchedd tîm deinamig lle bydd modd iddo ddatblygu ei sgiliau ymhellach, gan ddysgu ymagweddau newydd a datblygu methodolegau megis SCRUM. |
| **Manyleb Person** | <u>Meini Prawf Hanfodol:</u><br>Craidd:<br>• Tystiolaeth o ymfalchïo mewn darparu atebion a gwasanaethau proffesiynol<br>• Y gallu i gydweithio mewn amgylchedd o gydraddoldeb, ymddiriedaeth a pharch i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid<br>• Tystiolaeth o ymagwedd ofalgar at eich holl gwsmeriaid, gan sicrhau profiad personol a chadarnhaol<br><br>Cymwysterau:<br>• Gradd mewn Cyfrifiadureg/TG neu feysydd cysylltiedig neu brofiad gwaith cyfwerth |

| | |
|---|---|
| | Profiad:<br>• Profiad o C#, .net core, Entity Framework, LINQ, MVC, Github<br>• Profiad a sgiliau datblygu Windows/Linux<br>• Profiad o weithio mewn amgylchedd tîm ac yn annibynnol<br><br>Gwybodaeth a Sgiliau:<br>• C#, .net core, Entity Framework, LINQ, MVC, Github<br>• Cronfeydd Data ee Postgres/SQL/Trino<br>• Linux/Windows<br>• Saernïaeth prosesau busnes<br>• Systemau Gweithredu Rhwydwaith/Gweinydd<br>• Gwybodaeth ehangach o'r gymuned ddatblygu / cynnyrch Microsoft / cynnyrch ffynhonnell agored<br>• Sgiliau a galluoedd TGCh cyffredinol ardderchog<br>• Parodrwydd i ddysgu technolegau newydd mewn meysydd sy'n benodol i'r rôl.<br>• Gallu i nodi a datblygu opsiynau, gan ddefnyddio cymhelliad personol i ddatrys problemau<br>• Gallu i weithio i derfynau amser<br>• Sgiliau cyfathrebu ardderchog yn ysgrifenedig ac ar lafar<br>• Sgiliau rheoli amser a threfnu rhagorol i fodloni amcanion y prosiect<br>• Rhaid bod yn fodlon ymgymryd â gwiriad diogelwch lefel SC Llywodraeth y DU<br><br>Meini Prawf Dymunol:<br>• Profiad o weithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid (cwsmeriaid, gwerthwyr, partneriaid a chydweithwyr) ar draws lleoliadau academaidd a diwydiannol<br>• Y gallu i awduro dogfennaeth dechnegol.<br>• Gwybodaeth am Kubernetes |
| **Lefel Iaith Gymraeg** | Level 1 – 'a little' - pronounce Welsh words. Able to answer the phone in Welsh (good morning / afternoon). Able to use very basic every-day words and phrases (thank you, please etc.). Level 1 can be reached by completing a one-hour training course. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | Ymholiadau anffurfiol: Hazel Lockhart-Jones h.m.lockhart@abertawe.ac.uk Dr Justin Biddle j.biddle@abertawe.ac.uk |

Swansea University
Prifysgol Abertawe

Athena SWAN Silver Award
ECU GENDER CHARTER

Stonewall CYMRU
DIVERSITY CHAMPION

HR EXCELLENCE IN RESEARCH